

## Y Llyfr Bach o Gyfrinachau gan Linda Bailey

Roedd hi'n eistedd ar y fainc – ei hoff fainc yn ei pharc lleol.

Roedd hi wedi penderfynu mynd am dro ar ôl iddi hi godi y bore hwn, achos roedd y tywydd mor heulog.

A dweud y gwir, roedd hi wedi cael llond bol.

“Pam mae fy mywyd mor ddiflas? Mae hi'n wastad yn bwrw glaw, dw i ddim yn gallu fforddio mynd ar lawer o wyliau achos does dim digon o arian gyda fi.

Mae'r plant yn mynd dan fy nghroen i – yn sgrechian ac yn dadlau bob amser. Dw i wedi cael fy niswyddo. Rhaid i mi golli pwysau hefyd – hoffwn i allu gwisgo fy jîns eto. Mae popeth mor ddigalon ar hyn o bryd!”

Dyna oedd ei meddyliau ar ôl iddi hi godi. Roedd pob dydd yr un fath.

“Diwrnod hyfryd arall, on'd yw hi” dwedodd llais. Edrychodd hi fyny i weld rhedwr.

“Dim wir, a bod yn onest” atebodd hi.

Caeodd hi ei llygaid yn araf, tra'n dymuno bod yn rhywle arall. Pan agorodd hi nhw, gwelodd hi llyfr bach du'n gorwedd ar y fainc, wedi lapio mewn plastig. Roedd y rhedwr eisoes wedi mynd.

“Waw! O ble daeth y llyfr hwn? Welais i ddim byd cyn i fi eistedd”

Edrychodd o gwmpas y parc. Doedd neb yno.

Ar ôl hanner awr, cododd hi a cherddodd allan o'r parc, gyda'r llyfr yn ei llaw.

Pan gyrhaeddodd adre, aeth hi i mewn i'r gegin i wneud paned. Edrychodd hi ar y llyfr eto, oedd ar y bwrdd. Heb feddwl, eisteddodd hi, agorodd y llyfr a dechreuodd ddarllen.

\*\*\*\*\*

Ddau fis yn ddiweddarach...

Mae hi'n teimlo fel tasai hi'n gallu gorchfygu'r byd. Mae gyda hi swydd newydd, mae hi'n mwynhau cerdded yn y glaw er mwyn teimlo'r glaw ar ei hwyneb. Yn wir, ym mhob tywydd.

Mae'r plant wedi gwneud cacennau a chardiau i ddweud sori am eu drygioni. Mae eu perthynas wedi gwella cymaint nawr. Mae llawer o bethau hyfryd wedi digwydd dros ddau fis.

Un diwrnod heulog arall yw hi ac mae hi'n penderfynu mynd i'r parc... ond y tro hwn mae hi'n gwisgo dillad rhedeg. Mae hi'n colli'r pwysau, ac wrth ei bodd.

Wrth iddi hi fynd heibio'r fainc, mae hi'n sylwi bod gwraig yn eistedd yno.

Mae'n edrych fel ei bod hi wedi bod yn crïo.

“Chi'n iawn? Chi'n edrych yn ofidus, ga i helpu o gwbl?”

“Sai'n credu, a dweud a gwir dw i wedi cael llond bol ar bopeth ar hyn o bryd... y tywydd, fy swydd, fy nheulu. Ond diolch i chi am ofyn. Dych chi mor garedig.”

Wrth iddi hi eistedd ar y fainc, mae hi'n sibrawd wrthi hi:

“Cymerwch hwn i ddarllen” ac mae hi'n rhoi'r llyfr bach du iddi hi. “Dw i ddim yn gallu datgelu cynnwys y llyfr, ond dw i'n gobeithio bydd e'n gallu eich helpu, yn yr un ffordd mae e wedi fy helpu. Un peth olaf - efallai, pan fyddwch chi wedi gorffen ei ddarllen, gallech chi ei adael ar y fainc i rywun arall.